**Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd**

**Environment and Sustainability Committee**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Medi 2011

Annwyl gyfaill

Mae Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gynnal ymchwiliad i'r **diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.** Hoffai'r grŵp eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Mae cylch gorchwyl yr adolygiad fel a ganlyn:

- Asesu effaith posibl cynigion y Comisiwn ar Gymru ac ar Barth Pysgodfeydd Cymru, ac ystyried y goblygiadau ehangach i foroedd tiriogaethol Cymru a fydd yn deillio o'r cynigion ar gyfer sector pysgodfeydd Ewrop;

- Gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y materion y dylai'r Llywodraeth eu blaenoriaethu yn ystod y trafodaethau ar y broses ddiwygio.

- Bod yn fforwm lle gall rhanddeiliaid yng Nghymru ymgysylltu â'r ddadl dros ddyfodol y polisi;

- Er mwyn dylanwadu ar y ddadl ehangach ar y PPC, bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio rhannu ei gasgliadau â chyrff Seneddol y DU, y Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a chyrff perthnasol eraill yn Ewrop, fel Pwyllgor y Rhanbarthau.

Bydd y Grŵp yn ystyried:

- Beth allai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd eu golygu i Gymru ac i reolaeth Parth Pysgodfeydd Cymru? Yn benodol, a fyddai cynigion y Comisiwn i ddatganoli'r rheolaeth o bysgodfeydd o fudd i Gymru?



Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd / Environment and Sustainability Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8026
E-bost / E-mail : ES.comm@cymru.gov.uk

- Beth allai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd eu golygu o ran hyfywedd cymdeithasol ac economaidd cymunedau arfordirol yng Nghymru?

- Pa effaith y gallai newidiadau yn y sector pysgodfeydd ehangach yn Ewrop ei chael ar Gymru?

- Beth ddylai Llywodraeth Cymru ei flaenoriaethu yn ystod y trafodaethau ar ddiwygio'r PPC er mwyn sicrhau canlyniadau buddiol i Gymru?

- Sut all Cymru sicrhau bod ei barn yn cael ei hystyried yn y trafodaethau?

Nid oes yn rhaid i unrhyw gyflwyniadau fynd i'r afael â'r holl feysydd uchod ac mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Os ydych yn gwybod am berson neu sefydliad a allai fod â diddordeb yn ymchwiliad y Pwyllgor, a fyddech cystal â dangos y llythyr hwn iddynt.

Byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor yr hydref 2011, felly byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi yn eich cyflwyniad a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar, pe byddem yn eich gwahodd i wneud hynny.

Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn am gyflwyniadau ysgrifenedig oherwydd mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor ar ein gwefan fel bod cofnod cyhoeddus ohoni. Fodd bynnag, gallwn hefyd dderbyn tystiolaeth mewn fformat sain neu fideo. Gellir cyflwyno tystiolaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg, ond rydym yn gofyn bod sefydliadau sydd â Chynlluniau Iaith Gymraeg yn darparu ymatebion dwyieithog, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â'u polisïau.

Dylid anfon unrhyw gyflwyniadau at y Clerc yn ES.comm@cymru.gov.uk, neu i'r cyfeiriad uchod. Dylent gyrraedd erbyn **dydd Gwener 21 Hydref 2011** fan bellaf**.**

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir



**Julie James**
**Cadeirydd / Chair**